



Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

Cymdeithas Bob Owen

Tal aelodaeth

£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.

SWYDDOGION

Llywydd:

Dr. E. D. Jones

Cadeirydd:

D. Tecwyn Lloyd

Ysgrifennydd:

Richard H. Lewis,

LLys Afan, Penygarn,

Bow Street, Dyfed.

(Aberystwyth 828102)

Trysorydd a Threfnydd Busnes:

John Dilwyn Williams,

Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,

Pwllheli, Gwynedd.

(Pwllheli 613480)

Golygydd:

John Roberts Williams,

18 Minfordd, Llanrug, Caernarfon.

(Caernarfon 3593)

Cyhoeddir Y Casglwr

gyda chymorth ariannol

Cyngor Celfyddydau Cymru.

ANGLESEY BOOKS

(JACK BAINES)

1 Stryd Thomas,

Caergybi

Ynys Môn,

Gwynedd

LL65 1RR

Ffôn: (0407) 50988

Dewch i chwilota yn ein siop ar ei newydd wedd.

Yr un yw'r cyfeiriad, ond y mae yna fwy fyth o lyfrau yma.

Yn dal i arbenigo mewn llyfrau ar fynydda a fforio.

ALAN CADWALADR-JONES

Rhwymwr Llyfrau

62 Seabank Drive,

Prestatyn,

Clwyd. LL19 7SH

Ffôn: Prestatyn

(07456) 4298

Gwaith llaw o safon

uchel a gwasanaeth

personol.

Defnyddir patrymau a

defnyddiau

traddodiadol.

Y LIBRI

WELE restr ychwanegol o deitlau sy'n absennol o'r Libri Walliae.

Evans: Theophilus: *A history of Modern Enthusiasm.* Arg. 1af 1752; 2il arg. 1757. 'with very large Additions and Amendments' Llundain.

Williams. Moses (gol). *Leges Walliae.* Golygyd gan William Wotton. 1730. Llundain.

Churchyard. Thomas. *The Worthiness of Wales.* A Poem. Arg: 1af 1587. Adarg: for Thomas Evans in the Strand. London. 1776.

T(orbuck) J(ohn) *A collection of Welsh Travels and Memoirs of Wales.* Llundain. 1706.

Jones. Griffith (Llanddowror). *Crynodeb y Salmau Canu.* Arg: 1af 1743. 2il arg: 1774. Llundain.

Pughe. Wm: Owen. (cyf): *Coll Gwynfa.* Llundain. 1819.

Rhydderch. John. *Gwirionedd y Grefydd Grist'nogol.* Amwythig 1716.

Griffiths. Alexander. *Strena Vavasoriensis. A New Year's Gift for the Welsh Itinerants, etc:* Arg. 1af 1654. Llundain. Adarg: gan Gymdeithas Llên Cymru. Mawrth 1915.

Lewis. John (Glasrug). *The Parliament Explained to Wales.* 1646. Llundain. Adarg: Awst 1907 gan Cymd. Llên Cymru.

* * *

NID YW'R tri llyfryn a nodir isod yn *Libri Walliae*:

Marwnad Am Ein Brawd Owen

Byd main yr iaith fain

YMYSG pethau darfodedig y wasg yng Nghymru mae'r cylchgronau Saesneg - 'Anglo Welsh' - a fu at ei gilydd yn hynod fyrhoedlog.

Menter gynnar oedd *The Cambro Briton* a gyhoeddwyd yn Llundain gan ei olygydd a sylfaenydd John Humffreys Parry. Bwriedid iddo ddellio'n bythefnosol â materion o ddiddordeb i Gymru, ond yn fisol y gwelodd olau dydd o Fedi 19 hyd ei farwolaeth ym Mehefin 1822 - a dim copi wedi ei gyhoeddi rhwng Gorffennaf a Hydref 1821. Hynafiaethol at ei gilydd oedd ei bwyslais.

Ymgais weddol ddiweddar a aeth i'r gwellt oedd *Wales*. Keidrych Rhys oedd y sylfaenydd a'r golygydd gyda Dylan Thomas a Nigel Heseltine yn gynorthwyyr cynnar. Fe'i cyhoeddwyd mewn tair cyfres.

Haf 1937 - Gaeaf 1939-40. Caerfyrddin. Un rhifyn.

Gorffennaf 1943 - Hydref 1949. Llundain. Deunaw rhifyn.

Medi 1958 - Calan 1960. Llundain. Tri rhifyn ar ddeg.

Fe ail-gyhoeddwyd y gyfres gyntaf gan Frank Cass yn 1969.

At y Golygydd

Lewis, O'r Fferam Isaf yn Mhlwy Llanbabo, Mon yr hwn a hunodd yn yr Arlwydd, Ebrill 22, 1816 yn 73 oed... gan Hugh Pritchard, Niwbwrch. Llanerchymedd: Argraphwyd, gan Enoch Jones (d.d.) tt.1-6. (copi anghyflawn).

Ychydig Benhillion, yn gyntaf, Ymddiddan Rhwng yr Eglwys ac Angau. Yn Ail Marwnad, Am Owen Lewis, o'r Fferam Isaf, Llanbabo, Mon. Yr Hwn a Orphenodd Ei Yrfa, Ebrill 22in 1816, yn 73 oed. Yn Drydydd. Ystyriaeth Ar y Flwyddyn, 1817, Gan R.R. Llanerchymedd Argraphwyd gan E. Jones (d.d.) tt. 1-15.

Marwnad, A Gyfansoddwyd Er Coffadwriaeth Am y Parch T. Charles, A.B. o'r Bala, yr hwn a hunodd yn yr Arglwydd, Hydref 5, 1814. Gan G. ap Ioan, P-n, LL-n, Meirion Caernarfon Argrphwyd (sic) (d.d.) 1-8.

D.W.W.

LLYFRYDDIAETH

At y Golygydd, EFALLAI y caniatewch imi ychydig ofod yn Y Casglwr i gyfeirio at sylw D. Tecwyn Lloyd ynglŷn â llyfryddiaeth o weithiau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ym mrawddeg olaf ei adolygiad o ddwy gyfrol Eiluned Rees, *Libri Walliae*, 1546-1820 (Y Casglwr Awst 1987, t.16)

Bydd yn dda gan Mr Lloyd ac eraill wybod bod Uned Lyfryddol y Llyfrgell Genedlaethol eisoes wedi dechrau llunio'r llyfryddiaeth hwn. Tasg enfawr ac fe gymer flynyddoedd i'w chwblhau.

Ond yn y cyfamser, os oes gan unrhyw un a ddarlleno'r llythyr hwn lyfrynnau neu bamffledi y gellid eu hystyried yn rhai prin, byddai'n dda gennym wybod amdanynt. Gellir anfon yr wybodaeth ataf i'r Llyfrgell.

Diolch ymlaen llaw am unrhyw gyd-weithrediad.

Gareth O. Watts, Uned Lyfryddol Adran y Llyfrau Printiedig. Y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.

Ymyl y ddalen

FAINT ohonoch sy'n casglu anterliwtiau Cymraeg o'r XVIII ganrif? Rhad arnoch! Fe gymerth ddeng mlynedd ar hugain i mi gasglu tri ohonynt. Y rheswm amlwg am eu prinder yw eu bod yn gyhoeddiadau clawr papur ac wrth eu byseddu byddai'r anterliwtwyr brwd a meddw yn eu llyfrïo.

Hefyd, erbyn dechrau'r XIX ganrif, dan ddylanwad y Diwygiad Methodistaidd, yr oeddidd yn dirmygu'r anterliwt oherwydd yr iaith aflednias a ddefnyddid ynddynt. Taflwyd llawer o gopiau i'r fflamau.

Y mae'n wyrth fod tair ohonynt yn eiddo i mi. Argraffwyd tua 22 ohonynt yn y XVIII ganrif a golyga hyn fod gennyf un rhan o saith ohonynt.

Prynais un anterliwt tua thair blynedd yn ôl ac oherwydd iddi gael lloches mewn cyfrol 'Amryw' y mae'n gopi rhagorol. Digon carpiog oedd y ddwy anterliwt arall a brynais tua phymtheg mlynedd yn ôl, y ddwy wedi eu cyfansoddi gan Ellis Roberts y Cowper o Landdoged.

* * *

HYD Y gwyddys Ffrewyll y Methodistaidd, neu buttein-glwm Siencyn ac Ynyfydog (tua 1747 - dim argraffnod) gan William Roberts yw'r anterliwt Gymraeg gyntaf i'w hargraffu. Heblaw hynny y mae'n eithriadol bwysig oherwydd ei thema, sef ymosodiad cignoeth ar Fethodistaidd ac Ymneilltuwyr cynnar Gwynedd.

Llofnodwyd fy nghopi glân i gan 'Goodman Roberts' a dichon fod y gŵr hwn yn hanu o Lannor, bro'r awdur.

Ceir llofnod 'Hugh Williams' ar *Llyfr Enterlut newydd Wedi gosod mewn dull ymddiddanion rhwng gras a natur* o waith Ellis Roberts, Cowper o Landdoged (1769 Warrington). Ie, Warrington! Argraffwyd dau lyfryn Cymraeg cynnar yn Warrington ac y mae gennyf i un ohonynt.

Ar wyneb ddalen fy nhrydedd anterliwt fe ysgrifennwyd '...JonesHis Book 1778'. Rhaid mai ef oedd ei pherchen cyntaf gan mai 3 Tachwedd 1777 yw'r dyddiad sydd gan Ellis y Cowper ar derfyn ei lith i'r darlennydd. Hefyd ar dudalen 66 ceir 'Thos. Parry Joiner Be()'. Hyd y gwn i fy nghopi i yw'r unig gopi cyflawn yn y byd. Wele'r teitl *Enterlut O Ymadrodd Sylweddol / Rhwng Deddf ar Crefyddol / Am Seina, a Selon / O Ddull Ymddiddanion* (1777 Trefriw).

At yr anterliwt hon y cyfeiria Ioan Pedr (1833-77) yn y *Traethodydd* (1872) t. 106.

Rhan o weithgarwch Gŵyl Mabsant Bodedern yw llwyfannu anterliwtiau. Erbyn hyn fe ysgrifennodd Edgar Jones bedair anterliwt newydd sbon ar gyfer yr Wyl hon a gŵyr plant a phobl Bodedern a'r fro yn union beth yw anterliwt. Byddaf yn dyblygu tuag wyth copi o'r anterliwtiau ar gyfer Glabsant Bodedern a gwelais yr anterliwtwyr mewn ymarferiadau yn llyfrïo'r copiau hyn. Dyna'r union beth a ddigwyddodd i anterliwtiau'r oesau.

D.W.W.